CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 18ed TACHWEDD 2025.

NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. Mrs. L Roberts. (Cadeiryddes) Cyng. R G Parry (Is-Gadeirydd) Ms. N Dafydd, J Evans, D T Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. G Jones, J E Lewis, W R Parry, R R Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

Is-Gadeirydd. Cyng R G Parry oedd yn cadeirio.

CAEL COFNODION 21ain HYDREF 2025 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. J Evans, eilo Cyng. D T Roberts.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Parcio ym Modffordd.
Nid oes mwy o ddatblygiad. Y Cyngor Sir heb ddod yn ol gyda dyddiadau i gyfarfod ar yn safle.

Adroddiad Adran 6. Bioamrywiaeth.
Wedi cael trafodiaeth penderfynwyd tynnu cynllun gyda`r gobaith o weithredu yn y dyfodol.
Tyfu coed Cae Chwarae. Cael potiau neu Cafnau gyda llysiau a blodau (fel rhai blodau sydd ger Bronheulog a gwaelod Bodffordd) (Croeslon Llangwyllog) Ychwanegu gyda coed yn bosib. Mannau sydd wedi ei esgeuluso yn y pentrefi. Paneli Solar ar y tir. Mannau lle mae dwr cael i gael Llygoden Bengron (Voles) Madfall (Newts) Gors Bodwrog yn gynnwys o Gwn Dwr ac anifeiliad gwyllt eraill. Gors ger Pen yr Orsedd, Trefor werth meddwl. Rhandir (Allotments) chwilio am dir. Efallai fod ffermydd gyda llefydd gwyllt ac yn fodlon i`w ddefnyddio.
Y Cyngor yn derbyn yn unfrydol.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. HHP/2025/173. Cais llawn ar gyfer dymchwel ynghyd ag addasu ac ehnagu yn:-
Ty Newydd, Llandrygarn.
Cefnogaeth cryf.
Cynnig Cyng. D T Roberts, eilo Cyng. J Evans.

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Cyfreithiwr Tim Eiddo a Priffyrdd - Siwan Jones.
Gorchymyn y Cyngor Sir (Amryw Leoliadau Ward Canolbarth Môn) Terfyn cyflymder 30mya 2025.

Bodffordd o gyfeiriad yr A5. Obwynt 37 metr i`r de o`r gyffordd a Maes y Meillion, i bwynt 588 metr i gyfeiriad y de-orllewin.
Derbyn. Ond y Cyngor ei eisiau o waelod yr allt ger Capel Gad.

4. Cyfreithiwr Tim Eiddo a Priffyrdd - Siwan Jones.
Gorchymyn y Cyngor Sir Llwybr Troed Rhif 3 a llwybr troed rhif 4 yng Nghymuned Bodffordd gwyro llwybr cyhoeddus 2025.
Rhif 3. O bwynt A sydd wedi ei leoli ger perimedr Maes Awyr Mona, llwybr yn mynd tua`r gogledd-orllewin ar draws cae am 59m yna yn parhau tua`r gogledd-orllewin ar hyd trac i ymuno a lôn fynediad Cerrig Duon ym mhwynt B.
Rhif 4. O bwynt B sydd wedi`i leoli ychydig i`r gogledd-ddwyrain o Cerrig Duon. Mae y llwybr yn mynd tua`r de-orllewin ar hyd y ffordd fynediad ac i mewn i fuarth y fferm. Manylion i`w gweld.
Y Cyngor yn derbyn ar ol cefnogi.

5. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Derbyniwyd rhybydd Stadudol o`r bwriad i "Adleoli Dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad Ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11 - 18 oed"
Mae cyfnod 28 diwrnod i wrthwynebu yn dilyn yn mynd hyd 23.59 ar y 3ydd Rhagfyr 2025.
Rhybudd statudol Ysgol Uwchradd Caergybi
Y Cyngor yn derbyn heb unrhyw wrthwynebiad.

6. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Bydd cyfarfod nesaf o Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar y 15ed Rhagfyr 2025.
Y Cyngor yn derbyn.

7. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Da oedd gweld fod teleuoedd yn dechrau symud i gartrefi newydd sydd yn effeithlon o ran ynni yn Llanfaethlu. Stad y Bryn naw o gartrefi ansawdd uchel. Wedi ei hadailadu gan Ingram Property Developments Cwmni Lleol o Lanfaethlu. Maer Tenantiaid i deuluoedd lleol o Fôn (Fforddiadwy ac Ecogyfeillgar) Mae`r Tai yn fram coed.
Derbyniwyd gan y Cyngor heb ei gweld felly nid oedd sylw pellach.

GOHEBIAETH (ARALL)

8. Cenin Thomas - Baw Cwn yn Llynfaes.
Derbyniwyd copi o lythyr er gwybodaeth anfonwyd i`r Prif Weithredwr y Cyngor Sir, gan Cadeirydd Pwyllgor Neuadd Goffa Bodwrog. Daeth y broblem ar 27ain Tachwedd pan fu plant yn mynd o gwmpas pentref Llynfaes yn canu a tric neu drin. Am ei bod yn dywyll roedd rhai wedi sefyll mewn baw cwn ac wedi ei gario i`r Neuadd.
Anfonodd y Clerc gopi o`r llythyr i "Warden Cwn" y Cyngor Sir yn syth.
Derbyniwyd ymateb gan Trystan Swyddog o`r Cyngor Sir, i Cyng. N Dafydd.
Mae yn bosib gyrru Swyddog allan i monitro a`i addysu - os yn gweld perchnogion cwn.
A fuasai y Gymuned yn gallu cysylltu a Gwarchod y Cyhoedd drwy ei e-bostio PublicProtection@ynysmon.llyw.cymru a rhannu y wybodaeth, ple mae`r broblem / oes patrwm - pa amser or dydd mae pobl yn mynd a chwn am dro.
Posib rhannu`r neges a`r Gymuned y bydd papur ymgynghoriad yn cael ei rannu yn y dyfodol agos ar orchymyn diogelu mannau cyhoeddus i reoli cwn.
Cysylltu os oes unrhyw gwestiwn.



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

HUW PERCY C.Eng., CEnv, MICE
Pennaeth Gwasanaeth - Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
Head of Service - Highways, Waste and Property

Swyddfeydd y Cyngor/ Council Offices
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

MANYLION / DETAIL:

Llwybr i'w wyro/ Path to be diverted

Gwyriad arfaethedig/ Proposed diversion

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023 Ordnance Survey AC0000825374
© Crown copyright and database rights 2023 Ordnance Survey AC0000825374

Ni chaniateir i chi gopio, is-drwyddedu, rhannu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i drydydd parti mewn unrhyw ffurf.
You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form

DARLUNWYD GAN:
DRAWN BY: Arwel G. Evans

DYDDIAD/ DATE: 24-06-2025

GRADDFA / SCALE: 1:3,500

9. Un Llais Cymru - Wendy Patience.
Derbyniwyd dyddiadau Hyfforddiant i Gynghorwyr a Clercod am mis Hydref i Rhagfyr 2025.
Mae yn annog i`r Cynghorwyr fynychu. ond anodd iawn i`w gael ymrywiad. Crybwyllwyd trwyddo ac am fod yr amser yn brin yn y flwyddyn hon gadael oedd y peth gorau. Pan geir dyddiadau am y flwyddyn 2026 rhoi pwys am wirfoddolwyr i fynychu.

10. Un Llais Cymru - Tracy Gilmartin.
Ymgynghoriad am newidiadau i Reolau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru. Yn ceisio barn. Mae diweddariad am rheolau i sicrhau eu bod yn ddwyieithog, i adelwyrchu newidiadau diweddar yng nghorchymyn Senedd Cymru. (Potread y bobl) 2025. Cymhwyso newid sydd ar waith ar gyfer etholiadau i`r Senedd o ran eithrio costau sy`n gysylltiedig a diogelwch i Etholiadau Llywodraeth Leol. Cynigion sydd ym mhapur strategol Llywodraeth y DU ar ddiwygio Etholiadol. Mae Copi o`r Ymgynhoriad ar gael. Barn Cynghorau erbyn 6ed Ionawr 2026.
Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth ond nid oedd sylw pellach i`w gofnodi.

11. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Cyng. J E Lewis fydd yn ei dreulio.

RHODDION.

12. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Apel Cyngor Gymunedol 2025.
Y Cyfrifon a`r Adroddoad Blynyddol ar y wefan.
Trwy gynnig Cyng. D T Roberts, eilio Cyng. Ms N Dafydd pasiwyd i gyfranu £100

PLWYFOL.

13. Mynwent Gymunedol Bodffordd.
Defnyddio Maes Parcio y Fynwent.
Gadael hyd y cyfarfod nesaf gan obeithio bydd pwyllgor llawn. Unfrydol.

14. Adroddiad y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd.
Derbyniwyd adroddiad a oedd yn gystylliedig a wardiau Cyngor Bodffordd. Diolchwyd iddi.

MATERION ARIANNOL.

15. Cyfrif Rhedegol. £24,049.98.

Mynwent Gymunedol Bodffordd 10,010.00 rhan o`r uchod))

TALIADAU:

16. Clerc £500.55. Ambiwlans Awyr Cymru £100.00

Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng J Evans eilio Cyng. Mrs L Roberts.

D Owen (Clerc)